

Bar â chymhordal i Aelodau o'r Cynulliad

06 Ebrill 2020

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 10 Mawrth pan wnaethoch ofyn:

Following the introduction of a minimum cost of a unit of alcohol, can you let me know if there is a subsidised bar for AMs. If so do AMs pay less than the limit set by the sennedd ? If so then could you explain why?

Gweler yr ymateb isod.

Cyflwynwyd Isafbris Uned o 50c ar gyfer alcohol yng Nghymru ar 2 Mawrth 2020. Cadarnhaodd canllawiau Llywodraeth Cymru ar roi isafswm prisiau ar gyfer alcohol ar waith yng Nghymru na fydd yr Isafbris Uned yn cynyddu pris pob diod, dim ond y rheini sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi o dan yr Isafbris Uned o 50c ar hyn o bryd.

Mae Parlwr Te'r Aelodau - sy'n cynnwys cyfleuster bar - wedi'i ddarparu fel rhan o'r ystod gyffredinol o wasanaethau arlwyo'r Cynulliad. Nid yw'r gwasanaethau penodol a ddarperir yn seiliedig ar gymorthdaliadau prisiau ar gyfer eitemau sydd ar werth, ond yn hytrach ar gost darparu cyfanswm rhychwant y gwasanaethau arlwyo ar draws yr ystod o allfeydd arlwyo. O ran yr Isafbris Uned o 50c ar gyfer alcohol, mae pris yr holl alcohol a werthir ym Mharlwr Te'r Aelodau yn uwch na'r Isafbris Uned o 50c.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y [Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth](#). Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'n ysgrifenedig i

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Llywodraethu a Sicrwydd

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's
Office

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF